## Ymholiadau am y Grant Cyflog

Ymhellach i'r llythyrau atodedig dyddiedig 17 a 22 Mawrth, ceir eglurhad isod o faterion penodol a gododd ar ôl cytuno ar ddiwygiadau i ddyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2022/23.

**Ariennir yn llawn gan Lywodraeth Cymru**

Mae arian i dalu cyflogau athrawon yn rhan o'r arian craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol fel y'i cefnogir gan y Setliad Llywodraeth Leol. Lle nad oes modd cynnwys symiau penodol ac annisgwyl yn y Grant Cynnal Refeniw o ganlyniad i gyfyngiadau amser, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian grant ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Nid Llywodraeth Cymru sy'n cyflogi athrawon ac, felly, nid oes ganddi ddata parhaus ar y gyflogres. O ganlyniad, fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, cyfrifwyd lefel y grant ledled Cymru ar sail niferoedd athrawon blynyddol a data cyflog a ddarparwyd gan gyflogwyr ac a gyhoeddwyd fel rhan o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion. Yn dilyn cytundeb ag awdurdodau lleol yng Nghymru, ers 2018, mae unrhyw daliadau grant interim sy'n gysylltiedig â chyflogau athrawon wedi cael eu dyrannu i awdurdodau lleol unigol ar sail Asesiadau Seiliedig ar Ddangosyddion Addysg.

Yn dibynnu ar drefniadau ariannu addysg awdurdodau lleol unigol, gall fod gwahaniaethau ymylol cadarnhaol a negyddol, i gynghorau unigol ledled Cymru. Mae trefniadau ariannu/cyllidebau ysgolion yn amrywio ledled Cymru am lawer o resymau dilys a byddai rhagnodi swm yr arian gan Lywodraeth Cymru ar sail elfennau o wariant awdurdodau lleol yn codi pryderon ynghylch tryloywder a thegwch ymhlith awdurdodau gwahanol. Fodd bynnag, os yw awdurdodau lleol unigol yn poeni am eu dyraniad, cysylltwch â ni.

Mae'n berthnasol i bob aelod o staff sy'n gymwys i gael cyflog o dan ofynion statudol Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) h.y. “yn berthnasol i athrawon a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd (heblaw mewn sefydliad a gynhelir gan awdurdod lleol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol).” Er enghraifft, bydd hyn yn cynnwys athrawon cymwysedig a gyflogir yn ganolog a/neu mewn unedau cyfeirio disgyblion lle cânt eu talu o dan y gofynion statudol Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

Cafwyd cytundeb teirochrog ar y taliad rhwng Gweinidogion Cymru, cyflogwyr ac undebau, fel y cadarnhawyd yn y llythyr atodedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 17 Mawrth.
Daethpwyd i gytundeb ag awdurdodau lleol ar drefniadau grant dilynol ar gyfer ariannu'r dyfarniad cyflog yn llawn ac mae'r trefniadau hynny bellach ar waith. Mae'r llythyr atodedig gan Gyfarwyddwr Addysg Llywodraeth Cymru ar 22 Mawrth yn cynnwys manylion y cyfraddau cyflog newydd. Caiff y Gorchymyn Cyflog Statudol ei osod cyn gynted â phosibl.

Gan edrych i'r dyfodol, cafwyd trafodaethau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch ariannu elfen gyfunol y dyfarniad cyflog ychwanegol yn y dyfodol a dyfarniad cyflog 2023/24. Caiff manylion penodol ynghylch y dull gweithredu y cytunwyd arno eu cadarnhau yn ystod yr wythnosau nesaf. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi cael eu gwneud eto ynghylch blwyddyn ariannol 2024-25.

**Ymholiadau Penodol ynghylch rhoi'r dyfarniad cyflog ar waith.**

- Mae'r dyfarniad cyflog yn darparu ar gyfer cynnydd o 6.5% i bob pwynt cyflog a lwfans yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021.
- Mae hefyd yn darparu ar gyfer cyfandaliad anghyfunol untro a gyfrifir fel 1.5% o'r pwyntiau cyflog llawn amser a lwfansau yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021.
- Dylid ei gyfrifo ar sail pro rata yn achos unrhyw athro cymwys nad yw'n gweithio contract llawn amser.
- Mae elfennau cyfunol ac anghyfunol y dyfarniad cyflog yn gymwys i gyflog a lwfansau cytundebol, fel taliadau cyfrifoldebau addysgu a dysgu.
- Mae manylion y pwyntiau graddfa diwygiedig a'r cynnydd cyflog cyfatebol wedi'u cynnwys mewn llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 22 Mawrth.
- Nid yw'r cyfandaliad anghyfunol yn bensiynadwy ac nid yw'n destun didyniadau pensiwn. Cyfandaliad ydyw sy'n werth 1.5% o gyflog blynyddol a lwfansau i'r lefel a ddarperir yn y llythyr atodedig dyddiedig 22 Mawrth.
- Nid yw'r cyfandaliad anghyfunol yn bensiynadwy a dylid dilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer taliadau o'r fath.
- Mae'r dyfarniad yn berthnasol i bob aelod o staff cymwys a gyflogir yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 h.y. y rhai a gyflogir o dan y gofynion statudol a nodir yn Nogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).
- Dylai'r symiau hyn gael eu cyfrifo ar sail pro rata yn achos staff rhan amser gan gymhwyso egwyddorion pro rata i gyflogeion rhan amser yn seiliedig ar eu CALl cytundebol.
- Caiff taliadau i staff cymwys a gyflogir am ran o'r flwyddyn academaidd eu cyfrifo ar sail pro rata yn yr un modd â staff rhan amser.
- Caiff athrawon cyflenwi a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol neu ysgolion (h.y. staff nad ydynt yn gweithio i asiantaethau) eu cwmpasu gan ofynion statudol Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac, felly, byddant yn gymwys i gael y dyfarniad cyflog fel staff a gyflogir yn barhaol. Caiff taliadau i aelodau o staff cymwys nad ydynt yn barhaol eu cyfrifo yn yr un modd â'r taliadau i staff parhaol cymwys a gyflogir am ran o'r flwyddyn academaidd.
- Pan fo athro wedi symud yn ystod y flwyddyn rhwng dau awdurdod lleol yng Nghymru, cyfrifoldeb y cyflogwr cyfredol yw sicrhau bod yr athro yn cael taliad llawn.
- Ni ddylai staff ar absenoldeb mamolaeth gael eu rhoi o dan unrhyw anfantais.
- Er cysondeb, cyfrifir lefel y grant a ddarperir ar sail yr un set ddata a ddefnyddiwyd ar gyfer y 5% gwreiddiol ar gyfer 2022, gan gynnwys y rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion ac ati. (gweler y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion).
- Lle mae awdurdodau lleol yn talu athrawon mewn unedau cyfeirio disgyblion yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), yna mae'r arian gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys eu cost. Mae'r Ddogfen yn nodi ei fod “yn

berthnasol i athrawon a gyflogir gan awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a gynorthwyir neu ysgol arbennig sefydledig er mwyn darparu addysg gynradd neu uwchradd (heblaw mewn sefydliad a gynhelir gan awdurdod lleol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol).”